Superfast Business Wales

# Canllaw Busnes

# Mae Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP)

O ran defnydd cyffredin o ffonau, mae'n arferol i ddefnyddwyr sy'n symud o system ffôn Rwydwaith Ddigidol Gwasanaethau Cyfun (ISDN) draddodiadol i Brotocol Llais dros y Rhyngrwyd hanneru eu costau rhedeg.

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy | 03000 6 03000

Busnes Cymru Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP)

Mae Protocol Llais dros y Rhyngrwyd, neu VoIP, yn dechnoleg sy'n caniatáu i alwadau gael eu gwneud drwy gysylltiad rhyngrwyd neu fand eang cyflym iawn. Mae'n cynnig amrywiaeth o fanteision i ddefnyddwyr, sydd â'r gallu i newid y ffordd rydym yn defnyddio'r ffôn.

Y prif reswm y mae busnesau yn newid i VoIP yw ei fod yn torri costau yn ddramatig. Os oes gennych gysylltiad band eang di-dor â'r rhyngrwyd, a'r cyfarpar VOiP priodol, yna mae galwadau rhwng unigolion - hyd yn oed galwadau rhyngwladol - yn rhad ac am ddim drwy ddefnyddio offer VoIP. Y cyfan fyddwch yn talu amdano yw eich cysylltiad â'r rhyngrwyd.

O safbwynt defnydd syml o ffonau, mae'n arferol i ddefnyddiwyr symud o system ffôn draddodiadol Rhwydwaith Digidol Gwasanaethau Integredig (ISDN) i VoIP haneru eu costau rhedeg.

Mae rhaglenni symudedd hefyd yn sbarduno'r newid i VoIp gan alluogi defnyddwyr i weithio gyda dyfeisiadau ar wahân i'r ffôn draddodiadol ar y ddesg.

> Mae'n arferol i ddefnyddiwyr symud o system ffôn draddodiadol VoIP haneru eu costau rhedeg

## Deall

## Beth mae'r Dechnoleg yn ei wneud?

Mae gwasanaethau VoIP fel arfer yn perthyn i un o dri chategori: ar gyfrifiadur, ar ffôn a symudol.

### Ar gyfrifiadur

Mae galwadau yn cael eu gwneud drwy gyfrifiadur, sy'n golygu bod yn rhaid cael meddalwedd penodol, ynghyd â set pen neu set law VoIP arbenigol wedi ei blygio i mewn i'r cyfrifiadur. Mae gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chyfrifiaduron yn gweithio'n dda i bobl sy'n gwneud galwadau wrth eu desgiau neu sy'n teithio gyda gliniadur Wi-Fi pan fyddan nhw ar grwydr. Mae gwasanaethau o'r fath yn gofyn i chi osod meddalwedd ffôn meddal er mwyn i chi allu gwneud a derbyn galwadau drwy eich cyfrifiadur.

### Ar ffôn

Mae galwadau yn cael eu gwneud dros y rhyngrwyd drwy gysylltu set law ffôn safonol â llwybrydd sydd â VoIP wedi'i alluogi neu addasydd VoIP. Mae hyn yn eich galluogi i wneud a derbyn galwadau ar unrhyw adeg – hyd yn oed pan fydd eich cyfrifiadur wedi diffodd. Mae gwasanaethau dros y ffôn yn addas i'r rhai sy'n chwilio am linell ychwanegol ar gyfer y swyddfa, neu sy'n gweithio'n rheolaidd rhwng lleoliadau.

### Symudol

Cyn belled â bod eich busnes wedi ei gysylltu â'r rhyngrwyd gan ddefnyddio cysylltiad sefydlog neu Wi-Fi, gallwch wneud a derbyn galwadau lle bynnag yr ydych chi. Mae'r rhan fwyaf o ffonau clyfar yn cynnig ffordd o ddefnyddio dyfais unigol i wneud a derbyn galwadau VoIP pan na fyddwch ar grwydr drwy ddefnyddio band eang diwifr, yn ogystal â rhoi mynediad amser real at negeseuon e-bost, calendr, cysylltiadau a dogfennau.

### Beirniadaeth o VoIP

Yn y gorffennol roedd VoIP yn cael ei feirniadu'n aml am ansawdd sain gwael a'r syniad nad yw'n ddibynadwy. Fodd bynnag, mae gwasanaethau gan gyflenwyr ag enw da yn awr yn cynnig yr un ansawdd â llinell sefydlog, ac yn aml gall fod yn well na signal ffôn symudol. Yn y cyfamser, mae dibynadwyedd wedi cynyddu hefyd, ac erbyn hyn y mae wedi cyrraedd safonau addas i fusnesau.

> Yn y gorffennol roedd VoIP yn cael ei feirniadu'n aml am ansawdd sain gwael a'i fod yn annibynadwy, ond nid dyna'r achos erbyn hyn.

.

## Mabwysiadu

## Dechrau arni

Bydd pob cwmni angen rhai pethau sylfaenol i ddechrau defnyddio VoIP. Argymhellir cysylltiad band eang pwrpasol gyda chyflymder cysylltiad o 2Mbps o leiaf wrth lwytho i lawr, er bod cysylltiad cyflymach yn arwain at well perfformiad. Os yw eich cwmni eisoes yn defnyddio band eang cyflym iawn, yna bydd gennych fwy na digon o gyflymder ar gyfer VoIP.

### Rhifau ffôn

Ym myd VoIP mae'n bosibl cael rhif ffôn mewn unrhyw ranbarth daearyddol y dymunwch ei gael, heb orfod dibynnu ar eich lleoliad corfforol. Yn ogystal, gallwch gael unrhyw fath o rif nad yw'n perthyn i'r system ddaearyddol - 0800, 03, 0845, ac ati. Mae'r holl rifau hyn yn gweithio yn union yr un fath â rhifau cyffredin, ac yn cael eu rhoi i ddarparwyr VoIP gan Ofcom yn y ffordd safonol.

### Y dewisiadau a'r ddarpariaeth o ran setiau llaw

Mae amrywiaeth eang o ffonau ar gael, sy'n costio rhwng £50 a £500, gyda nodweddion ac ymarferoldeb wedi'u cynllunio ar gyfer pawb, o ddefnyddwyr unigol i fusnesau mwy o faint.
Yn ogystal neu fel arall, gall defnyddwyr ddewis cleient meddal sy'n rhedeg yn uniongyrchol ar gyfrifiadur personol, neu ddefnyddio apiau VoIP i gysylltu ffonau clyfar a dyfeisiau tabled yn llwyddiannus. Gellir prynu ffonau o nifer o fannau, ond mae'n syniad da eu cael nhw gan y cwmni y byddwch yn eu defnyddio i ddarparu eich system VoIP. Bydd darparwr y gwasanaeth yn eu hanfon atoch wedi eu ffurfweddu'n llawn â'r system, sy'n golygu y byddan nhw'n cyrraedd yn

barod i'w cysylltu a'u defnyddio ar unwaith. Bydd y cwmni sy'n darparu'r system VoIP hefyd yn gallu rheoli eich ffonau o bell, gan leddfu pryderon am ddiweddariadau a chynnal a chadw.

### Dewis y cyflenwr priodol

Mae nifer o gyflenwyr yn cynnig ystod eang o wasanaethau VoIP wedi'u hanelu at gwmnïau llai o faint, ond mae'n bwysig asesu holl anghenion y busnes er mwyn gwneud y dewis priodol. Yn y blwch isod ceir rhai cwestiynau i'w gofyn er mwyn helpu i sicrhau eich bod yn dod o hyd i'r darparwr priodol:

### Rhai cwestiynau allweddol i'w gofyn i ddarpar gyflenwyr VoIP:

- Beth yw'r costau ymlaen llaw ac a oes yn rhaid i mi dalu am y caledwedd?
- A oes angen trwyddedau ar y defnyddwyr terfynol?
- Pa fath o rif ffôn y byddaf yn ei gael ar gyfer fy ngwasanaeth VoIP?
- A oes ddesg gymorth benodol ar gyfer defnyddwyr busnes?
- A yw'r gwasanaeth wedi ei gynllunio'n benodol ar gyfer defnydd busnes?
- A yw'n rhad ac am ddim i ffonio cydweithwyr dros VoIP?
- Beth yw cost gwneud galwadau?
- A yw cyfraddau capio yn cael eu cynnig?
- Beth sy'n digwydd os oes problem, ac a fydd angen talu am gynnal a chadw?
- A oes angen hyfforddiant i ddefnyddio'r system newydd?

# Ymelwa

## Pa fuddiannau y gallaf eu disgwyl i'm busnes?

### Arbed costau

Y rheswm mwyaf cyffredin dros ystyried VoIP yw'r arbedion costau a geir drwy wneud galwadau dros fand eang. Fodd bynnag, yn ogystal â gallu gwneud galwadau am ddim rhwng defnyddwyr VoIP, mae llawer o wasanaethau hefyd yn cynnig arbedion dros linell sefydlog safonol i rifau lleol, cenedlaethol, rhyngwladol a symudol.

Gellir gwneud arbedion sylweddol ar rentu llinellau tir a chylchredau ISDN. Mae'r rhain yn amrywio, ond fe allen nhw gronni'n gyflym, yn dibynnu ar faint eich busnes. Yn ogystal, gellir gwneud arbedion ar gost cyfalaf PBX ffisegol, sydd fel arfer yn fwy na £5,000.

Mae VoIP hefyd yn cynnig ffordd o reoli'n llwyr yr arian a gaiff ei wario bob mis, gyda phecynnau sy'n rhoi galwadau diderfyn i rifau lleol a chenedlaethol am gost misol sefydlog, a chyfraddau wedi'u capio ar gyfer ffonau symudol a chyrchfannau rhyngwladol.

### Symudedd gwell

Trwy lwytho ffôn meddal i lawr i'r bwrdd gwaith, byddwch chi a'ch staff yn gallu gweithio o unrhyw le. Gan fod galwadau VoIP yn cael eu cyfeirio at rif ffôn, nid i leoliad sefydlog, nid yw'r

lleoliad yn berthnasol i bartneriaid busnes a chwsmeriaid. A gan fod galwadau ffôn sy'n dod i mewn yn cael eu cyfeirio yn awtomatig i ba le bynnag rydych yn cysylltu â'r rhyngrwyd, gallwch wneud a derbyn galwadau gan ddefnyddio'r un rhif lle bynnag rydych chi.

### Gweithrediadau busnes gwell

Yn ogystal â nodweddion fel galwadau tair ffordd, blaenyrru galwadau, neges llais ac adnabod galwr, mae gwasanaethau VoIP hefyd yn cynnig nifer o nodweddion uwch, gan gynnwys:

- Galwadau fideo a fideo-gynadledda
- Offer cydweithio integredig fel negeseuon sydyn a phresenoldeb.

### Parhad busnes wedi'i wella

Gall VoIP fod o werth sylweddol o ran parhad eich busnes a chynllunio sut i adfer y sefyllfa os oes argyfwng yn digwydd, oherwydd fel rydym wedi sôn yn barod, mae'n eich galluogi i sefydlu eich ffonau yn unrhyw le sydd â chysylltiad rhyngrwyd. Felly, os bydd trychineb annisgwyl yn effeithio ar eich safle, gallwch fynd â ffonau wedi'u ffurfweddu ymlaen llaw i leoliad newydd, eu plygio i mewn ac fe fyddan nhw'n gweithio yn union fel y gwnaethon nhw yn y swyddfa wreiddiol.

## Awgrymiadau Ardderchog

### Adolygwch eich mynediad band eang cyn symud ymlaen

Sicrhewch fod cyflymder eich mynediad band eang yn ddigon cyflym i gefnogi'r defnydd o VOiP

### Ystyriwch y math o wasanaeth VOiP sydd ei angen arnoch

Penderfynwch ai'r dull gyfrifiadurol, ffôn neu symudol (neu gyfuniad ohonynt) sydd orau ar gyfer eich anghenion.

### Dewiswch y rhif ffôn fwyaf priodol

A yw eich rhif ffôn presennol yn bodloni'ch anghenion neu a fyddai'n well i chi gael rhif 0800 er enghraifft?

### Cyfrifwch yr holl gostau cysylltiedig

Sicrhewch eich bod yn deall yr holl gostau a wynebwch ymlaen llaw, ynghyd â chostau parhaus fel trwyddedu a chysylltu a godir.

### Deall yr holl fuddion wrth sefydlu ROI

Sicrhewch eich bod yn deall yr holl fanteision posib, yn cynnwys rhai annirweddol fel delwedd broffesiynol well ar gyfer cwsmeriaid neu well symudedd staff

### Siaradwch â mwy nag un darparwr gwasanaeth

Mae ystod eang o ddarparwyr ar gael sydd â gwahanol arbenigeddau a chryfderau felly sicrhewch eich bod yn siarad â thrawstoriad da ohonynt.

### Sicrhewch eich bod yn gofyn y cwestiynau cywir i ddarparwyr gwasanaethau arfaethedig

Defnyddiwch y cwestiynau sydd yn y canllaw hwn er mwyn cael y wybodaeth gywir gan ddarparwyr arfaethedig.

### Rhowch brawf i'ch darparwr gwasanaethau dewisol cyn ymrwymo

Siaradwch â chwsmeriaid eraill a ffoniwch llinell gymorth y darparwr er mwyn cael argraff dda o lefel ac ansawdd ei wasanaeth.

### Peidiwch â dewis darparwyr gwahanol ar gyfer ffonau VOiP, trynciau SIP a band eang

Os bydd hi'n bosibl, dewiswch un darparwr er mwyn sicrhau y bydd y ffonau'n cael eu hanfon wedi'u ffurfweddu'n llwyr ar gyfer y lefel a'r ansawdd briodol a gynigir ganddynt.

### Cofiwch beidio ag ymrwymo i gontractau hirdymor

Mae technoleg a'r gweithle'n newid yn barhaus felly cofiwch osgoi cael eich clymu i mewn i ymrwymiadau hirdymor.

## Y CAMAU NESAF

1. **Cofrestrwch i fod yn bresennol mewn Gweithdy Datblygu Busnes wedi'i ariannu'n llawn:**
   **http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau**

2. **Trefnwch apwyntiad i weld Ymgynghorydd Buses a fydd yn eich helpu I greu cynllun gweithredu personol i dyfu'ch busnes:**
   **http://business.wales.gov.uk/cy/cysylltwch-a-ni**

## Cadwch eich bys ar y pwls gyda Cyflymu Busnesau Cymru

Gweld sut mae busnesau eraill yng Nghymru wedi ymelwa o Fand Eang Cyflym Iawn:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/straeon-llwyddiant-cyflym**

---

Canfod faint allai'ch busnes chi arbed gyda'r cyfrifiannell arbedion:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/cyfrifwr-arbedion**

---

Mae Canllawiau Busnes eraill a allai fod o ddiddordeb i chi yn cynnwys:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/canllawiau-busnes-cyflym-iawn**

---

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn fisol ar ddatblygiad busnes, newyddion technoleg a digwyddiadau tanysgrifiwch i Daflen Newyddion Busnes Cymru:
**https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new**

---

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 03000 6 03000 neu ymwelwch â:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy**